

# CREU LLYFR NODIADAU MAES

## TROSOLWG

Mae disgyblion yn creu eu llyfr nodiadau maes eu hunain yn y wers er mwyn arolygu safle awyr agored. Gall y disgyblion ei aildefnyddio mewn gwersi neu fel gwaith cartref, i arolygu safleoedd gwahanol.

## CYFLWYNIAD


Wrth wneud gwaith maes, mae gwyddonwyr yn cofnodi pob arsylwad, syniad a chwestiwn mewn llyfr nodiadau, sy'n hanfodol i'r gwaith maes. Mae pob llyfr nodiadau maes yn unigryw, ac yn adlewyrchu arddull bersonol y gwyddonydd.

Mae sawl ffordd o gofnodi gwybodaeth. Bydd rhai gwyddonwyr yn braslunio lluniau pensel syml, ac eraill yn paentio delweddau lliwgar, manwl. Byddan nhw'n defnyddio rhestrau, diagramau, graffiau a siartiau llif, neu'n ysgrifennu disgrifiadau hir a manwl.

Mae rhai ymchwilwyr yn ysgrifennu popeth – o fesuriadau a data i arsylwadau a sbesimenau a gasglwyd, ac eraill yn cofnodi peth o'r wybodaeth yn unig.

Gall llyfr nodiadau maes fod fel dyddiadur hyd yn oed, yn cofnodi teimladau ac emosiynau.

Defnyddiwch pa bynnag offer sy'n gweithio orau i chi. Y peth pwysig yw cofnodi'r wybodaeth mewn ffordd y gallwch chi ei gofio.



## CYNGOR CYN CYCHWYN

1. Dechreuwch bob sesiwn maes drwy ysgrifennu'r hanfodion hyn:

- amser (defnyddiwch fformat cloc 24 awr)
- dyddiad
- ardal (lleoliad, lledred a hydred, darlleniad GPS)
- llwybr i'r safle arolygu (sut wnaethoch gyrraedd?)
- tywydd (tymheredd, gwynt, glaw...)
- cynefin (e.e. gardd gefn, coetir, gwlypdir)

2. Cofnodwch eich arsylwadau. Er enghraifft:

- rhywogaethau a welwyd
- ffrwythau neu flodau ar goed neu blanhigion unigol
- hyngweithiadau fel pryfed yn paru neu'n ymladd, neu blanhigion peillio
- unrhyw newidiadau ers i chi fod yno ddiwethaf
- nodiadau cyffredinol (brasluniau, mapiau a lluniau)

3. Meddylwch am rai cwestiynau a allai eich helpu i ddechrau:

- Beth ydw i'n ei weld?
- Ydw i'n gweld unrhyw beth sy'n fy synnu?

### **BRASLUNIO MAES**

Mae gweld ac arsylwi yn bethau gwahanol. Wrth weld rhywbeth rydyn ni fel arfer yn ceisio ei adnabod, heb boeni am y manylion.

Mae lluniau astudiaethau maes yn fanwl, er mwyn cofnodi mewn dau ddimensiwn, elfennau o'r hyn rydych chi'n ei arsylwi.

Y cam cyntaf yw penderfynu pa agwedd(au) o'r gwrthrych rydych chi am eu cofnodi. Ydych chi am wybod uchder a lled cymharol y gwrthrych? Ydych chi'n cofnodi lliw? Faint o fanylion sydd o ddiddordeb i chi?

### **GWEITHGAREDD ESTYNEDIG**

Ymchwiliwch i enghreifftiau o lyfrau nodiadau naturiaethwyr enwog fel Alfred Russel Wallace, Charles Darwin a Gilbert White, neu lyfrau nodiadau mordeithiau ymchwil hanesyddol.


<https://www.nhm.ac.uk/discover/news/2014/november/evolution-pioneers-illegible-notebook-brought-back-life.html>

<https://www.nhm.ac.uk/discover/hms-endeavour-250.html>

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y straeon cudd y tu ôl i'r ymgyrchoedd ymchwil hyn.

Chwiliwch yn llyfrgell ac archifau yr Amgueddfa Hanes Naturiol am ragor o enghreifftiau:

<https://www.nhm.ac.uk/our-science/departments-and-staff/library-and-archives.html>



Un o ddarluniau pysgod Alfred Russel Wallace o'r Rio Negro